OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 837 (Cy. 183)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Llangadfan, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Awst 2020* |
| *Yn dod i rym* | *10 Awst 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A458, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Llangadfan, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Therfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2020 a daw i rym ar 10 Awst 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

   (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

   (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Awst 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser

Y darn o'r gefnffordd yn Llangadfan, Powys sy'n ymestyn o bwynt 57 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2090 sy'n arwain at Maes y Ddawns hyd at bwynt 215 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o'r gefnffordd yn Llangadfan, Powys sy'n ymestyn o bwynt 213 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4395 hyd at bwynt 385 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2090 sy'n arwain at Maes y Ddawns.